Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

# Adroddiad Ymgynghori - Crynodeb o Ymatebion

## Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)

Digidol ISBN 978 0 7504 8163 2
© Hawlfraint y Goron 2012
WG16808

**Manylion Cyswllt:**

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Thîm Prosiect y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol:

Cyfeiriad: Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant
Is-adran Deddfwriaeth a Pholisi
Ail Lawr, Adain y De
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 02920 825681

E-bost: SocialServicesBill@Wales.gsi.gov.uk

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Dadansoddiad o'r Ymatebion** | **4** |
| **Adran 1:** Cynnal a gwella lles pobl mewn angen | **4** |
| **Adran 2:** Llais cryfach a rheolaeth go iawn | **6** |
| **Adran 3:** Cyfeiriad cenedlaethol cryf ac atebolrwydd lleol am ddarpariaeth | **13** |
| **Adran 4:** Diogelu ac amddiffyn | **16** |
| **Adran 5:** Rheoleiddio ac arolygu | **19** |
| **Adran 6:** Gwasanaethau | **23** |
| **Adran 7:** Gweithredu'r ddeddfwriaeth arfaethedig (Effaith) | **26** |

# Cyflwyniad

## Diben yr ymgynghoriad

Ar 12 Mawrth 2012, lansiodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant ymgynghoriad ar y cynigion yr oedd Llywodraeth Cymru yn ystyried eu cynnwys yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru). Cyhoeddwyd y Bil newydd hwn yn rhaglen ddeddfwriaethol y Prif Weinidog ar gyfer 2011-16 ac mae'n helpu i gyflawni'r uchelgeisiau a nodwyd yn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn a safbwyntiau ar y cynigion deddfwriaethol drafft ar gyfer y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) yn y meysydd canlynol:

- Cynnal a gwella lles pobl mewn angen;
- Llais cryfach a rheolaeth go iawn;
- Cyfeiriad cenedlaethol ac atebolrwydd lleol am ddarpariaeth;
- Diogelu ac amddiffyn;
- Rheoleiddio ac arolygu;
- Gwasanaethau (mabwysiadu a throsglwyddo ar gyfer plant anabl a phobl ifanc);
- Gweithredu'r ddeddfwriaeth arfaethedig (Effaith).

## Hyd a dosbarthiad yr ymgynghoriad

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 12 Mawrth 2012 a 1 Mehefin 2012 ac yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru o ran y Gymraeg, cyhoeddwyd y dogfennau ymgynghori yn ddwyieithog ar wefan Llywodraeth Cymru.

Gallai ymatebwyr lenwi un o ddwy ffurflen ymateb - y ffurflen safonol neu'r ffurflen hawdd ei deall a gellid cyflwyno'r rhain yn electronig neu ar ffurf copïau caled. Gweler y ddolen isod am gopïau o'r dogfennau ymgynghori:

**http://www.wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/bill/?lang=cy**

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Cyflwynwyd y cynigion drafft i randdeiliaid mewn tri digwyddiad ymgynghori ledled Cymru. Bu tua 400 o bartïon â diddordeb o'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol yn bresennol yn y digwyddiadau hyn. Yn ogystal, cynhaliodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ddigwyddiad ymgynghori arbennig ar ran Llywodraeth Cymru, i holi barn gweithwyr asiantaethau gwirfoddol yn benodol.

Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc

Yn ogystal â'r dogfennau ymgynghori safonol a hawdd eu deall, comisiynodd Llywodraeth Cymru sefydliad gwirfoddol o'r enw Youth Friendly i lunio fersiwn o'r ymgynghoriad i blant a phobl ifanc hefyd. Gweithiodd Youth Friendly gyda grwpiau o blant a phobl ifanc i ddatblygu'r ddogfen er mwyn sicrhau eu bod yn deall beth

fyddai'r Bil yn ei olygu iddynt hwy. Roedd y ddogfen drwyddi draw yn cynnwys cyfres ychwanegol o gwestiynau a oedd yn eu galluogi i gyfrannu eu syniadau i'r ymgynghoriad. Roedd fersiwn dwyieithog o'r ddogfen hon hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. (Dolen uchod)

Hefyd, comisiynodd Llywodraeth Cymru ddau sefydliad, sef Voices from Care a Cognition, i gynnal gweithdai unigol gyda grwpiau agored i newid y byddai'r Bil yn effeithio ar eu bywydau; fel plant anabl, plant sy'n derbyn gofal, y rhai sy'n gadael gofal a gofalwyr ifanc. Roedd canfyddiadau'r gweithdai hyn yn bwydo i mewn i'r dadansoddiad cyffredinol o'r ymatebion.

**Fformat y Ddogfen Ymgynghori**

Roedd y ddogfen ymgynghori wedi'i rhannu'n saith adran, gweler y pwyntiau bwled ar dudalen 3.  Roedd yr adrannau hyn wedi'u rhannu'n isadrannau a oedd yn rhoi manylion am bob un o'r cynigion ac uchelgeisiau'r ddeddfwriaeth. Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi eu barn ar nifer o gwestiynau, a rhoddwyd gwybod iddynt nad oedd rhaid iddynt ateb pob cwestiwn yn y ddogfen; dim ond yr adrannau a oedd yn berthnasol yn eu barn hwy y dylid eu cwblhau.

Fel y nodwyd yn y naratif esboniadol yn y dogfennau ymgynghori, caiff yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad eu cyhoeddi ar wahân, yn llawn, lle bo'r ymatebydd wedi rhoi caniatâd i hynny.

**Ymatebion i'r Ymgynghoriad**

Cawsom 275 o ymatebion ysgrifenedig i gyd, yn amrywio o atebion byr i naratif manwl ar y cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori.

Dyma nifer yr atebion a dderbyniwyd fesul sector:

| **Sector** | **Ymatebion** |
|---|---|
| Awdurdodau Lleol | 41 |
| Sefydliadau iechyd | 47 |
| Sefydliadau trydydd sector | 83 |
| Unigolion | 32 |
| Amrywiol | 72 |
| **Cyfanswm** | **275** |

## Dadansoddiad o'r Ymatebion

Yn y bennod hon rhoddir trosolwg cyffredinol o'r sylwadau ar gyfer pob adran; enghreifftiau penodol o'r ymatebion i bob isadran; a'r cwestiynau a ofynnwyd ym mhob un o isadrannau'r ddogfen ymgynghori. Noder mai dadansoddiad o'r ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad yw'r Crynodeb hwn o Ymatebion.

### Sylwadau Cyffredinol ar yr ymatebion

Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth eang i'r cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori. Cafwyd ceisiadau am eglurhad pellach o rai elfennau o'r cynigion a chroesawodd nifer o'r ymatebwyr y cyfle i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu'r cynigion ymhellach. Nodwyd bod cyllid a'r goblygiadau o ran adnoddau yn ystod unrhyw gyfnod o newid yn bryder mawr. Er bod y cynigion i wneud gwasanaethau cymdeithasol i blant ac oedolion yn gydradd i'w croesawu, nodwyd bod angen meini prawf penodol o hyd ar gyfer y ddau grŵp gan fod ganddynt anghenion a phroblemau penodol. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at y ffaith nad oedd yr ymgynghoriad yn cynnwys unrhyw gynnig penodol ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth. Cafwyd ymholiadau hefyd ynghylch effaith y ddeddfwriaeth newydd hon ar Ddeddfau cyfredol h.y. a fyddai'n disodli elfennau o'r statud cyfredol neu'n gweithio ochr yn ochr â hwy.

## Adran 1: Cynnal a gwella lles pobl mewn angen

### Sylwadau cyffredinol

Roedd cefnogaeth eang i'r cysyniad o gynnal a gwella lles ond roedd pryderon y gallai'r dulliau ymyrryd yn gynnar ac atal a gynigiwyd arwain at gynnydd yn y galw am rai gwasanaethau. Er bod cefnogaeth i'r egwyddor o "bobl mewn angen", teimlwyd bod y term ei hun yn negyddol.

Teimlwyd y dylid diwygio teitl y Bil i adlewyrchu'r ffaith fod nifer o asiantaethau yn helpu i ddarparu gofal cymdeithasol a chynnal a gwella lles.

Croesawyd y cynigion i gael gwasanaeth yn cwmpasu pobl o bob oed, ond roedd barn gymysg ar sefydlu'r un gwasanaethau i oedolion a phlant gan fod gan blant anghenion a phroblemau penodol.

Codwyd pryderon ynghylch goblygiadau cost y newidiadau arfaethedig a ph'un a oes gan Awdurdodau Lleol a'u partneriaid yr adnoddau a'r gallu i wneud y newidiadau priodol i'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd.

## 1.1 Lles pobl mewn angen

- Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i seilio'r ddeddfwriaeth hon ar y cysyniad o gynnal a gwella lles pobl mewn angen?
- Ydych chi'n cytuno â'n diffiniadau gweithredol o "les" a "phobl mewn angen"? Hoffech chi awgrymu diffiniadau gwahanol?
- Beth yw eich barn chi ar y ddyletswydd gyffredinol arfaethedig ar awdurdodau lleol a'u partneriaid i gynnal a gwella lles pobl mewn angen yn eu hardaloedd lleol?
- Beth yw eich barn ar y cynigion i ddarparu canllawiau ar y maes hwn drwy'r Cod Ymarfer?

Enghreifftiau o ymatebion:-

- Mae'r diffiniad o les a phobl mewn angen yn glir ac yn gyfannol, fodd bynnag, dylid sôn am anghenion ysbrydol; ac ni nodir bod hybu iechyd meddwl yn allweddol i les.
- Mae angen egluro ymhellach y gofyniad cyffredinol i gynnal a gwella lles gan fod y diffiniad yn rhy eang a chwmpasog.
- Dim gwrthwynebiad i'r cynnig ond dylid gwahanu gwasanaethau cymdeithasol i Blant ac Oedolion oherwydd y meysydd gwaith gwahanol.
- Nid yw'n glir o'r diffiniad o oedolion mewn angen p'un a all gofalwyr fod yn oedolion mewn angen.
- Yn croesawu'r ffaith nad yw cymorth i gynnal iechyd neu les bob amser yn ddibynnol ar ofal cymdeithasol ac am gael eglurhad ynghylch cyfrifoldeb ALlau i gynnig gwasanaethau penodol i bobl mewn angen.
- Bydd y syniad o God Ymarfer yn safoni ansawdd a chydraddoldeb y ddarpariaeth ac mae angen ysgrifennu'r ddogfen hon mewn ffordd syml sy'n hysbys i bawb.

## 1.2 Diffinio gwasanaethau gofal cymdeithasol

- Beth yw eich barn ar y pŵer ehangach arfaethedig i awdurdodau lleol yng Nghymru ddarparu, neu wneud trefniadau ar gyfer darparu, gwasanaethau gofal cymdeithasol?
- Beth yw eich barn ar ein diffiniad arfaethedig o "wasanaethau gofal cymdeithasol"?

Enghreifftiau o ymatebion:-

- Yn derbyn y caiff y cynnydd posibl mewn llwyth gwaith ei wrthbwyso gan y lleihad mewn ymyriadau lefel uchel ond bydd hyn yn digwydd dros gyfnod hir o amser.
- Mae dyletswydd gyffredinol yn hanfodol i gynllunio a chomisiynu gwasanaethau cymdeithasol yn yr hirdymor a diwallu anghenion nas diwallwyd yn flaenorol.
- Mae perygl o ddyblygu os bydd rhaid i ALlau gynnal asesiad anghenion gan fod hyn yn digwydd o fewn y fframweithiau cynllunio unigol.

- Yn cytuno y bydd rhaid i ALlau ariannu costau ychwanegol a chaiff hyn ei liniaru gydag amser drwy leihad mewn gwasanaethau dwys, ond mae'n ansicr a fydd y systemau newydd yn datblygu heb fuddsoddiad ymlaen llaw.
- Yn croesawu'r cynnig i symleiddio'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol gan fod gan yr ALlau a'r Byrddau Iechyd lawer o seilos/gweithdrefnau/jargon sy'n anodd i ofalwyr, a hefyd mae'n rhaid i'r sefydliad gysylltu â llawer o adrannau.
- Yn croesawu'r eglurhad symlach a'r cyfuniad o bŵer unigol ar gyfer gofal cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol. Yn cefnogi'n llawn y gwasanaeth sengl/hyblyg ar gyfer plant ac oedolion.

## Adran 2: Llais cryfach a rheolaeth go iawn

**Sylwadau cyffredinol**

Cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebion â'r cynigion ynghylch gwneud gwybodaeth, cyngor a chymorth yn fwy hwylus i bawb. Dywedodd llawer y dylid rhannu'r wybodaeth ar lefel leol. Mae posibilrwydd bod systemau darparu gwybodaeth presennol yn gorgyffwrdd; a dylid symleiddio neu integreiddio'r systemau gwybodaeth amrywiol ar gyfer y meysydd gofal cymdeithasol ac iechyd.

Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r syniad y dylai fod hawl gan ddefnyddwyr a gofalwyr gael asesiad sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n cael ei arwain gan anghenion; y dylai asesiadau fod yn gymesur ac y dylent ganolbwyntio ar ganlyniadau unigolion. Roedd y rhan fwyaf yn ffafrio asesiad ffurfiol gan eu bod yn teimlo y byddai'n decach ac yn lleihau amrywiadau rhwng awdurdodau. Roedd ymatebwyr o'r farn bod hunanasesu yn rhan werthfawr a hanfodol o broses asesu ehangach, ond nid fel asesiad ar ei ben ei hun a nodwyd bod rôl i asesiadau â chymorth. Roedd rhai pryderon ynghylch sut y gellid cynnal hunanasesiadau yn achos plant.

Croesawai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr y ffaith bod modd trosglwyddo asesiadau gan bwysleisio bod hyn yn allweddol er mwyn sicrhau parhad o ran gofal a chymorth pan fo rhywun yn symud i ardal newydd. Cydnabuwyd mai ychydig iawn o arbedion a wneir yn sgil hyn, ond bydd profiadau cwsmeriaid yn gwella yn sylweddol. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith bod angen ystyried materion trawsffiniol.

Roedd pob ymatebydd a fynegodd farn o blaid cyflwyno system o gynlluniau gofal a chymorth statudol a'u hadolygu ac y dylid cynllunio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y person. Teimlai llawer y byddai pennu'r cynllun a gosod dyletswyddau penodol ar asiantaethau eraill i gefnogi'r cynlluniau gofal a chymorth yn gwella ansawdd a chysondeb ymarfer ledled Cymru.

Croesawyd yr egwyddor o fframwaith cymhwysedd cenedlaethol, fodd bynnag, teimlwyd ei fod yn dibynnu ar bennu trothwy isel er mwyn prif-ffrydio gofal ataliol yng nghyfundrefn y gwasanaethau cymdeithasol. Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr mai Gweinidogion Cymru ddylai bennu'r fframwaith, gyda'r ALlau yn cymhwyso'r meini prawf, ac y dylai fod yn gymwys i bawb - plant ac oedolion. Teimlai llawer y byddai'r system yn decach hefyd; byddai'n cael gwared ar y loteri cod post, yn lleihau cymhlethdod, yn helpu i sicrhau tryloywder ac yn rhoi mwy o

eglurder.  Teimlai'r rhan fwyaf fod y diffiniad pedair lefel presennol o gymhwysedd, sef critigol, sylweddol, canolig ac isel, yn ffordd ddefnyddiol o ddosbarthu anghenion cymwys, ond cydnabuwyd bod heriau a chyfyngiadau ynghlwm wrth ddefnyddio'r system hon.

Cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr â'r cynnig i fabwysiadu'r diffiniad o "ofalwr" o Fesur Gofalwyr (Cymru).  Teimlai rhai nad oedd y ddogfen ymgynghori wedi cynnig digon o resymau dros ehangu'r diffiniad o ofalwyr i gynnwys y rhai sy'n derbyn taliadau.  Roedd llawer yn anghytuno â'r cynnig i roi hawl i awdurdodau lleol ystyried ceisiadau am asesiad gofalwr gan ofalwyr maeth, gofalwyr lleoliadau oedolion a gofalwyr Shared Lives.

Roedd cefnogaeth gyffredinol i gyfuno'r ddeddfwriaeth ar Daliadau Uniongyrchol a chymorth a gaiff ei gyfeirio gan ddinasyddion. Roedd cefnogaeth hefyd i ddefnyddio broceriaid ar gyfer gwasanaethau, a dal cyllidebau defnyddwyr gwasanaethau; yn arbennig broceriaid annibynnol, gan gynnwys mentrau cymdeithasol. Pwysleisiwyd buddiannau gwasanaethau eiriolaeth i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau hefyd. Cefnogwyd y gallu i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol ar gyfer trefniadau Gofal Iechyd Parhaus, yn enwedig i'r rheini sydd wedi cael Taliadau Uniongyrchol yn flaenorol drwy ofal cymdeithasol. Ymhlith y nifer fach o bryderon a godwyd roedd yr effaith ar gynaliadwyedd parhaus y gwasanaethau a ddarperir gan ALlau, trefniadau llywodraethu, trefniadau sicrhau ansawdd a goblygiadau o ran adnoddau.

### 2.1 Gwybodaeth, cyngor a chymorth

- Ydych chi'n cytuno bod angen i ni gymryd cam mawr ymlaen o ran sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gael yn hwylus?
- Ydych chi'n credu y dylai'r ddeddfwriaeth nodi unrhyw ffurf sefydliadol arbennig ar gyfer hyn, fel canolbwynt gwybodaeth?
- Ydych chi'n credu y dylai'r ddeddfwriaeth nodi'n gliriach sut y dylai llywodraeth leol a'r GIG gydweithio'n agosach wrth ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth?

Enghreifftiau o ymatebion:-

- Yn cefnogi'r gofyniad i'w gwneud yn ofynnol i ALlau roi gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael a phwy sy'n eu darparu a gweithio gydag asiantaethau eraill.
- Nid oes digon o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd ar hyn o bryd ac mae'n syniad gwych cael canolbwynt gwybodaeth.
- Yn anghytuno â'r canolbwynt gwybodaeth - dylid rhannu gwybodaeth yn lleol ond mae angen i asiantaethau ddangos sut y maent yn gwneud hyn.
- Dylai'r GIG ac ALlau gael eu hintegreiddio cymaint â phosibl - mae rhwystrau gwleidyddol mawr i wneud hyn.  Bydd y Bil yn golygu y bydd hyn yn anochel.
- Na, dyma rai syniadau: gosod safonau cenedlaethol ar gyfer gwybodaeth a chyngor gan gynnwys gofyniad i bob asiantaeth rannu gwybodaeth yn lleol -

dylid gwneud popeth yn lleol, gan fod gan lawer o asiantaethau systemau i ddarparu gwybodaeth yn barod.

- Dylai'r ddeddfwriaeth nodi'n glir sut mae ALlau a'r GIG yn cydweithio'n agos o ran gwybodaeth.

## 2.2 Asesu anghenion

- Ydych chi'n credu y dylid cael hawl asesu unigol?
- Ydych chi'n cytuno y bydd y system newydd o fudd i ddefnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr, ac yn helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall eu dyletswyddau asesu? Os na, pam?
- Ydych chi'n cytuno y dylai'r gyfraith a pholisïau ddarparu ar gyfer asesiadau cymesur h.y. asesiad ffurfiol wedi'i bennu ar gyfer pobl sydd ag anghenion gofal cymdeithasol?
- A yw'n ddefnyddiol pennu'r broses asesu, a phwy ddylai fod yn gysylltiedig â hyn?
- Pa wybodaeth ddylai gael ei chynnwys yng "nghraidd cyffredin" asesiad integredig newydd?
- A fydd y system newydd yn fwy effeithlon ac yn sicrhau mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol?
- Ydych chi'n gweld rôl ar gyfer hunanasesu, ac os felly, sut fyddai hyn yn gweithio?

Enghreifftiau o ymatebion:-

- Dylai asesiadau gael eu harwain gan anghenion, nid gwasanaethau.
- Mae cyfle i wneud mwy o ddefnydd o hunanasesiadau ond mae angen craffu ar y mater er mwyn atal camdriniaeth.
- Er y bydd asesiadau mwy dealladwy yn gwneud pethau'n fwy hwylus ac yn cadarnhau cyfrifoldebau'r rhannau amrywiol o fewn y gwasanaethau cymdeithasol i'w cynnal, yn achos asesiad gofalwr, yn anghytuno y dylai'r rhain gael eu dirprwyo i eraill tra bod ALlau yn gallu penderfynu a yw person yn gymwys i gael eu gwasanaethau ai peidio.
- Dylai asesiadau fod yn gymesur. Dylai asesiadau o anghenion gofal cymdeithasol hyrwyddo tegwch. Dylai'r broses ganolbwyntio ar y canlyniadau y mae defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr am eu cyflawni. Os caiff y broses ei phennu'n rhy fanwl, maent yn meddwl bod perygl y bydd yn ymarfer 'ticio blychau' fformiwläig.
- Byddai'n anodd pennu pwy ddylai gymryd rhan yn y broses asesu oherwydd ni chaiff rhai anghenion eu nodi nes bydd y broses yn dechrau, felly gallai asiantaethau penodol gael eu hepgor.
- Dylai asesiadau fod yn niwtral o ran gofalwyr. Ni ddylid rhagdybio beth y dylai ac na ddylai gofalwyr ei wneud fel rhan o'r cynllun gofal. Rhaid i bob ochr gytuno ar faint o rôl y bydd y gofalwyr yn ei chwarae a dylid trafod y rôl honno pan fo pethau'n newid.

## 2.3 Y gallu i drosglwyddo asesiadau

- A ddylai'r Bil roi dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau lleol a'u partneriaid i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i berson mewn angen sy'n byw yn eu hardal nhw?
- Ydych chi'n cytuno y bydd trosglwyddo asesiadau yn sicrhau gofal mwy cyson i ddefnyddwyr gwasanaethau? Ydych chi'n cytuno y bydd yn arwain at arbedion?
- Pan fydd rhywun yn symud i ardal awdurdod lleol newydd, beth yw'r cyfnod derbyniol ar gyfer disgwyl i awdurdod newydd gadw asesiad o ddefnyddiwr gwasanaethau cyn iddo adolygu'r achos?
- Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer hysbysu a throsglwyddo gwybodaeth?

Enghreifftiau o ymatebion:-

- Ydw ond mae angen cael eglurhad o gyfrifoldebau/rolau er mwyn osgoi dyblygu wrth drosglwyddo cynlluniau gofal. Efallai y bydd angen edrych eto ar reolau preswylio fel bod cysondeb rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.
- Os bydd y Bil yn llwyddo i ddarparu'r un gwasanaethau ledled Cymru, yna gellir trosglwyddo asesiadau a bydd hyn, yn ei hanfod, yn ffordd o archwilio tegwch gwasanaethau os ydynt yn gweithio'n unol â'r un Cod Ymarfer.
- O ran trosglwyddo asesiadau, gallai heriau godi os bydd rhaid i ALlau tlotach ddarparu'r un gwasanaethau ag ALlau sydd â mwy o arian.
- Bydd yn gwella cysondeb gwasanaethau gofal ac yn arbed costau e.e. llai o asesiadau.
- Yn ansicr ynghylch arbedion cost oherwydd y trothwyon cymhwysedd gwahanol a allai gynyddu.
- Mae'r gallu i drosglwyddo asesiadau yn dibynnu ar y darparwyr gofal presennol a ph'un a oes darparwyr ar gael i ddarparu'r un gwasanaethau mewn ardaloedd eraill.

## 2.4 Rheoli ac adolygu cynlluniau gofal

- Ydych chi'n cytuno mai'r newidiadau i'r ddyletswydd statudol a amlinellwyd uchod yw'r rhai cywir i wella'r cynllun gofal a chymorth a'r systemau adolygu?
- Ydych chi'n cytuno y bydd yn bwysig pennu'r trefniadau gwahanol ar gyfer anghenion gwahanol, yn y rheoliadau a'r canllawiau?

Enghreifftiau o ymatebion:-

- Yn cefnogi systemau cynllunio sy'n canolbwyntio ar y person a bydd y newidiadau arfaethedig yn gwella gofal a chymorth ond mae angen sicrhau y caiff hyn ei wneud mewn ffordd deg ledled Cymru.
- Byddai dull cyson o weithredu o fudd i'r Byrddau Iechyd Lleol hynny sy'n cwmpasu nifer o ALlau.
- Mae posibilrwydd o wahanu'r cynlluniau gofal a chymorth arfaethedig.

- Mae'r newidiadau yn nodi fformat manwl ond tynnir sylw at y ffaith bod angen iddo fod yn hyblyg ac wedi'i deilwra i anghenion y defnyddiwr gwasanaethau.
- Mae anghenion gwahanol yn galw am ofal gwahanol ac felly mae angen trefniadau gwahanol.
- Yn meddwl ei fod yn syniad da ond efallai nad yw'n ymarferol oherwydd mae gan unigolion anghenion cymhleth/sy'n gorgyffwrdd ac felly mae'n anodd pennu trefniadau penodol ar gyfer anghenion penodol.

## 2.5 Fframwaith Cymhwysedd Cenedlaethol

- Ydych chi'n credu y bydd y fframwaith cymhwysedd cenedlaethol newydd yn fuddiol?
- Beth yw rôl yr awdurdod lleol wrth bennu'r meini prawf cymhwysedd a beth yw cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, yn eich barn chi?
- Ydych chi'n credu bod y diffiniad pedair lefel presennol o gymhwysedd: "critigol, sylweddol, canolig ac isel" yn ffordd ddefnyddiol o ddosbarthu anghenion cymwys?
- Ydych chi'n cytuno y dylai'r fframwaith newydd gynnwys holl gategorïau pobl mewn angen - plant ac oedolion fel ei gilydd?
- Ydych chi'n gweld unrhyw rwystrau penodol i weithredu trothwy cymhwysedd unigol? Sut fyddech chi'n goresgyn y rhwystrau hyn?
- A ddylai pobl allu asesu eu hunain i gael mynediad i wasanaethau? Os felly, sut ydych chi'n credu y byddai hyn yn digwydd?

Enghreifftiau o ymatebion:-

- Yn croesawu'r Fframwaith Cymhwysedd Cenedlaethol a fydd yn arwain at wasanaeth teg. Rhaid ystyried ac asesu'r goblygiadau ariannol.
- Dylai Llywodraeth Cymru bennu cymhwysedd a dylai ALlau weithio'n unol â'r meini prawf hynny mewn ffordd gyfartal a theg.
- Dylai ALlau bennu eu meini prawf eu hunain a dylai Llywodraeth Cymru eu harchwilio.
- Yn credu mai Llywodraeth Cymru ddylai bennu cymhwysedd er mwyn gwella'r gallu i symud gofal. Dylai Llywodraeth Cymru osod y fframwaith a dylai'r ALl benderfynu sut i'w gweithredu o fewn y fframwaith, blaenoriaethau'r Cyngor a'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael. Gwrthdaro posibl rhwng cymhwysedd ac ymyrraeth gynnar.
- ALlau yn gweithredu cymhwysedd mewn ffordd deg i sicrhau y caiff adnoddau eu defnyddio'n briodol. Llywodraeth Cymru i fonitro sut y caiff ei weithredu a ph'un a yw'n addas at y diben, a gwrando a chefnogi newidiadau i helpu ALlau i weithio gyda chymhwysedd er mwyn sicrhau tegwch.
- Rôl gan ALlau i osgoi gwneud rheolau cyffredinol ynghylch cymhwysedd. Dylent bennu cymhwysedd ar sail penderfyniadau a wneir ar ôl cynnal asesiadau a ph'un a oes ganddynt ddyletswydd statudol i'w darparu. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y meini prawf cymhwysedd yn deg ac yn gyfartal a bod gan yr ALlau ddigon o adnoddau i ddiwallu'r anghenion.

## 2.6 Hawliau gofalwyr

- Ydych chi'n cytuno y dylai'r diffiniad arfaethedig o ofalwr fod yn seiliedig ar yr un y cyfeirir ato ym mharagraff 2.6.8?
- A ddylem adael i awdurdodau lleol gynnwys rhai gofalwyr sy'n cael taliadau neu sydd â chontract am y gofal a ddarparant o fewn y diffiniad o ofalwr, lle nad yw'r berthynas yn un fasnachol neu wirfoddol gyffredin? (fel y gall gofalwyr dderbyn asesiad ac elwa ar unrhyw gymorth arall sydd ar gael i ofalwyr di-dâl).
- A oes grwpiau eraill o ofalwyr nad ydynt wedi'u cynnwys, ond y dylid eu cynnwys?
- A ddylid rhoi'r hawl i awdurdodau lleol ystyried ceisiadau gan Ofalwyr Maeth neu Ofalwyr Lleoliadau Oedolion/Shared Lives i gael eu dosbarthu yn 'ofalwyr' a chael yr hawl i wneud cais am asesiad o anghenion gofalwyr?
- Ydych chi'n credu y dylid rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyhoeddi gwybodaeth am hawliau gofalwyr a'r gwasanaethau a gynigir i ofalwyr yn eu hardaloedd lleol?
- Ydych chi'n credu y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnig asesiad gofalwr i unrhyw un sy'n ymddangos fel pe bai'n ofalwr â chyfrifoldebau gofalu sylweddol?

Enghreifftiau o ymatebion:-

- Dylid defnyddio'r diffiniad o ofalwyr a geir ym Mesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru) 2010. Cefnogwyd hyn mewn dau ymgynghoriad blaenorol a theimlaf fod y ddwy egwyddor sylfaenol yn bwysig.
- Dylai gofalwyr/rhieni a theuluoedd chwarae rhan lawn. Dylid datblygu adnoddau asesu er mwyn ymdrin ag anghenion, nid dymuniadau, a bod y rhai sydd â'r anghenion mwyaf yn cael blaenoriaeth.
- Nid yw'r diffiniad yn gwahaniaethu rhwng rolau gofalu naturiol, fel gwraig neu riant, a gofalwr "â thâl", felly nid yw'n gwella nac yn cael gwared ar y cyfyng-gyngor o ran pwy sy'n ofalwr ai peidio.
- Pryderon am y cynnig i roi hawl i ALlau ddosbarthu pobl sy'n cael rhyw fath o daliad neu sydd â chontract gofal yn ofalwyr - mae gan ofalwyr deimladau cryf ynghylch cael eu dosbarthu'n 'weithwyr gofal' h.y. cael eu talu yn hytrach na rhoi'r gofal am eu bod yn caru'r unigolyn/yn deyrngar iddo.
- Am i'r Mesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru) gael ei basio yn 2010, nid oes digon o dystiolaeth i newid y diffiniad a heb hynny, ni allaf gefnogi'r newidiadau.
- Anghytuno'n gryf â'r cynnig i roi hawl i'r ALl benderfynu pwy sy'n ofalwr a hefyd roi'r hawl i ofalwyr maeth gael asesiadau gofalwyr oherwydd gallai hyn gynyddu nifer y gofalwyr a gwanhau'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt o bosibl.

## 2.7 Taliadau Uniongyrchol

- Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i ddefnyddio'r Bil hwn i gyfuno'r holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â darparu Taliadau Uniongyrchol yng Nghymru?
- Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i roi pwerau eang i Weinidogion Cymru ymestyn y trefniadau Taliadau Uniongyrchol cyfredol fel y gallant gyflwyno model effeithiol o gymorth a rheolaeth hunangyfeiriedig sydd hefyd yn annog rhagor o bobl i fanteisio ar y trefniadau Taliadau Uniongyrchol yng Nghymru?
- Oes gennych chi farn ar ddulliau posibl eraill o ymestyn y Taliadau Uniongyrchol y tu hwnt i'r cynllun cyfredol? Er enghraifft, a ddylent gael eu hymestyn i brynu llety preswyl neu ganiatáu i awdurdod lleol neu sefydliad annibynnol fod yn asiant neu frocer ar ran gwasanaethau a dal cyllideb ar ran y defnyddiwr gwasanaethau?

Enghreifftiau o ymatebion:-

- Ie ond mae perygl y bydd unigolion "llai abl" yn ei chael hi'n anodd comisiynu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt ac felly byddant yn dibynnu ar wasanaethau'r ALl a all ddod i ben os bydd adnoddau yn cael eu defnyddio ar gyfer y taliadau uniongyrchol y mae pobl "abl" yn cael budd ohonynt.
- Yn gobeithio y caiff model hunangymorth effeithiol ei ddatblygu a'i weithredu yng Nghymru, fodd bynnag ni ddylai ychwanegu at y baich sydd ar ofalwyr teuluol. Er mwyn annog rhagor o bobl i fanteisio, rhaid datblygu seilwaith cymorth effeithiol cysylltiedig.
- Diben y Bil yw gwneud pethau'n fwy agored a thryloyw ac er mwyn gwneud hyn, dylai ALlau a sefydliadau unigol fod yn gydasiantau gan weithredu fel broceriaid rheoli i'r gwasanaeth a dal cyllideb ar ran y defnyddiwr gwasanaethau.
- Yn cytuno â hyn ac yn enwedig y defnydd o asiantau/broceriaid sy'n dal cyllideb ond na ddylent fod ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau. Gall hyn arwain at ganlyniadau gwell na broceriaid ALl.
- Rhaid rhoi ystyriaeth ddyledus i gostau gweinyddol yr asiant rheoli (ar ran y defnyddiwr) a rhaid cymryd gofal i sicrhau bod systemau llywodraethu ar waith bob amser. Dylai'r arbedion effeithlonrwydd a monitro sy'n deillio o'r ffaith bod yr ALl yn comisiynu gwasanaethau gael eu trosglwyddo i ddefnyddwyr gwasanaethau drwy daliadau uniongyrchol os bydd ALlau yn gweithredu ar ran rhywun.
- Ie, mae lle i ymestyn yr opsiynau ar gyfer defnyddio taliadau uniongyrchol. Mae angen polisïau/gwasanaethau rheoli gwell i sicrhau bod arian ar gael a'i fod yn cael ei neilltuo ar gyfer yr angen penodol dan sylw, yn enwedig os caiff ei ddefnyddio i ariannu lleoliadau preswyl.

## 2.8 Cwynion a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

- Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) ystyried cwynion gan bobl sy'n ariannu eu gofal cymdeithasol eu hunain?
- Ydych chi'n cytuno y dylid ymestyn cylch gwaith yr Ombwdsmon i gynnwys cartrefi gofal ac asiantaethau gofal cartref yn unig, neu a ddylid ystyried ymestyn ei gylch gwaith yn ehangach fyth?
- Ydych chi'n cytuno y dylid ymestyn cylch gwaith yr Ombwdsmon i gynnwys gwasanaethau gofal lliniarol annibynnol?
- Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ganiatáu i'r Ombwdsmon ystyried cwynion am faterion a gododd cyn i bwerau'r Ombwdsmon gael eu hymestyn?
- Nid ydym yn cynnig bod "pwerau rhannu gwybodaeth" rhwng AGGCC a'r Ombwdsmon yn cael ei gynnwys yn rhan o'r cynnig, ac yn disgwyl y bydd y ddau gorff yn sefydlu protocol. Ydych chi'n cytuno bod hyn yn ddigonol neu a ddylid ystyried pwerau rhannu gwybodaeth?
- Ydych chi'n cytuno y dylai unigolion sydd â chwynion am wasanaethau gofal lliniarol annibynnol allu cael gafael ar wasanaethau eiriolaeth hefyd?

Enghreifftiau o ymatebion:-

- Yn cefnogi angen y rhai sy'n ariannu eu gofal cymdeithasol eu hunain i gael mynediad at ombwdsmon y dylid ei ymestyn i ddarparwyr gofal lliniarol. Er mwyn gwneud hyn, dylai'r Ombwdsmon gael arian ychwanegol priodol i sicrhau na fydd hyn yn effeithio ar ei rôl ym mhob sector.
- Yn cytuno â'r cynigion i ymestyn pwerau'r Ombwdsmon, trefniadau interim a'r protocol ag AGGCC.
- Ie, yng ngolwg y cyhoedd maent yn gweithredu ar ran sefydliadau iechyd, felly mae angen iddynt fod yn atebol i ombwdsmon.
- Yn ansicr a ddylai'r ombwdsmon ystyried cwynion a oedd wedi dod i law cyn iddo gael y pŵer newydd hwn.
- Dylid ystyried rhannu gwybodaeth a dylai gwasanaethau annibynnol fod ar gael.
- Mae gwasanaethau yn ddarparwyr gofal allweddol ar adeg anodd ym mywyd person. Byddai eiriolaeth i'w chroesawu os oes adnoddau ar gael.

# Adran 3: Cyfeiriad cenedlaethol cryf ac atebolrwydd lleol am ddarpariaeth

## Sylwadau cyffredinol

Roedd cefnogaeth gyffredinol i bob elfen yn Adran 3, gyda chefnogaeth gref iawn i elfennau penodol fel 'dyletswydd gwella' a datblygu Cod Ymarfer. Fodd bynnag, cafwyd ymateb cymysg i'r elfennau ar fesurau perfformiad a'r cynigion ar gyfer y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 3.1 Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol a Safonau ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol

- Ydych chi'n cytuno y dylid gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i annog gwelliannau mewn gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol (fel y'u diffinnir yn y Bil hwn) yng Nghymru?
- Ydych chi'n cytuno y dylid gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi (o bryd i'w gilydd) ac adolygu (yn achlysurol) datganiad o ganlyniadau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol?
- A ddylid sicrhau bod yna bŵer i nodi safonau perfformiad, i'w cyflawni gan awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol, islaw'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol?
- A ddylai'r safonau gael eu mesur trwy ddangosyddion perfformiad?

Enghreifftiau o ymatebion:-

- Yn cytuno y dylai'r holl bethau a gynigir yn y Bil fod ar waith er mwyn sicrhau llywodraethu cadarn. Yn cymeradwyo'r camau i ddatblygu'r Fframwaith Cenedlaethol a fydd yn rhoi gwybodaeth dryloyw i'r cyhoedd am berfformiad gwasanaethau cymdeithasol. Mae angen i ganlyniadau a dangosyddion personol fod yn realistig ac yn ystyrlon.
- Ie, gallai cyhoeddi canlyniadau greu adnodd defnyddiol at ddibenion arolygu gwasanaethau cymdeithasol.
- Dylai fod pŵer sy'n cynnwys anghenion a blaenoriaethau lleol. Dylid mesur safonau drwy ddangosyddion perfformiad ond nid yn gyfan gwbl felly. Dylid ystyried adborth gan eraill.
- Mae angen ystyried yn ofalus nifer y canlyniadau a'r math o ganlyniadau er mwyn dangos eu bod o'r math cywir ac nad ydynt yn brosesau biwrocrataidd newydd sydd ond yn cymryd lle'r fframwaith perfformiad cyfredol. Mae angen i'r fframwaith hefyd gael ei lywio gan amserlen benodol ar gyfer pob adran o'r Bil - materion mesur gwahanol ar gyfer amserlenni gwahanol.
- Na, dylid canolbwyntio ar brofiadau defnyddwyr gwasanaethau yn hytrach na thrin a thrafod rhifau.
- Ie mewn egwyddor, ond bydd y gwerth yn dibynnu ar p'un a fydd dangosyddion perfformiad yn mesur yr hyn sy'n bwysig i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

## 3.2 Cod Ymarfer

- A ddylid gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi Cod Ymarfer i gyfuno canllawiau statudol ar faterion gwasanaethau cymdeithasol?
- A ddylid ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar gynnwys y Cod Ymarfer cyn ei gyflwyno?
- A ddylid ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ymlaen llaw ar unrhyw newidiadau sylweddol y bwriadant eu gwneud i'r Cod Ymarfer?

- A ddylai'r Bil nodi bod rhaid i awdurdodau sy'n gweithredu o dan y ddeddfwriaeth ddilyn y Cod Ymarfer ac na cheir gwyro oddi wrtho oni bai bod yna reswm da dros wneud hynny (er na fyddai'r amod hwn yn rhoi rhyddid i benderfynwyr ddilyn llwybr cwbl wahanol)?
- Yn ogystal â'r Cod Ymarfer, a ddylai Gweinidogion Cymru gadw eu pŵer presennol i gyhoeddi cyfarwyddiadau ar faterion penodol, fel polisi neu gyfarwyddyd ymarfer?

Enghreifftiau o ymatebion:-

- Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi Cod Ymarfer.  Mae angen ymgynghoriad ond a ddylid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn neu a ddylid ei gyfyngu i sefydliadau partner.
- Mae angen rhoi hyblygrwydd i ALlau wyro oddi wrth y Cod Ymarfer, ond dim ond o dan amgylchiadau arbennig a ddylai fod yn anarferol ac yn dryloyw ac a ddylai gael eu dogfennu.
- Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a chadw pwerau presennol i gyhoeddi canllawiau mewn partneriaeth â Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Yn cefnogi cysyniad y Cod Ymarfer a fydd yn helpu i bennu safonau/meincnodau yng Nghymru - rhoi diwedd ar y loteri cod post.  Mae ymgynghori'n bwysig a dylid cynnwys rhanddeiliaid.
- Mae'n bwysig pennu canllawiau/gofynion sylfaenol ar gyfer darparu gwasanaethau.
- O ran y Cod Ymarfer, ni ddylai ALlau wyro oddi wrth y ddogfen hon heb reswm dilys a dylai cyrff rheoleiddio fonitro hyn.

### 3.3 Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol

- Ydych chi'n credu y dylem osod y gofyniad i benodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar wyneb y Bil, a chael pwerau i nodi'r cymwysterau y dylai Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol eu cael?
- Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau lleol allu rhannu Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol?

Enghreifftiau o ymatebion:-

- Yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru nodi'r gofyniad i benodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'i gymwysterau ar gyfer y swydd.  Dylai'r rhain gynnwys gofynion hanfodol ond ni ddylent atal gweithwyr proffesiynol o sectorau eraill rhag gwneud cais am y swydd.
- Yn croesawu'r awgrym y gellid rhannu Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Gallai rhannu Cyfarwyddwr achosi anawsterau ymarferol e.e. ardaloedd o boblogaeth uchel/ardaloedd mawr.

### 3.4 <u>Cydweithredu mewn gwasanaethau cymdeithasol integredig</u>

- Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i gyflwyno un gyfres gyson o bwerau sy'n gysylltiedig â chreu partneriaethau ffurfiol yng Nghymru at ddiben darparu gwasanaethau integredig?
- Ydych chi'n cytuno gyda'n cynnig i gyflwyno pwerau, mewn Rheoliadau a chanllawiau, i ddiffinio'r paramedrau ar gyfer datblygu partneriaethau ffurfiol a chyllidebau cyfun ac amlinellu sut a phryd y cânt eu defnyddio?

<u>Enghreifftiau o ymatebion:-</u>

- Rhaid i ALlau ddangos eu bod yn ymateb i amodau lleol.
- Mae angen ystyried hyn yng nghyd-destun y broses ddemocrataidd ac annibyniaeth leol a'r gallu a'r adnoddau i ddiwallu anghenion lleol. Gall canllawiau cenedlaethol fod yn fwy adeiladol na ddeddfwriaeth. Nid awgrymir y dylid cael cydymffurfiaeth ar draws amrywiaeth o ddulliau darparu - gall amrywiadau fod yn ddefnyddiol.
- Yn cytuno'n llwyr â'r egwyddor o integreiddio ond yn siomedig nad oes digon o fanylion am sut y bydd y pwerau statudol yn sicrhau mwy o waith partneriaeth Er mwyn llwyddo, rhaid cael mwy o fanylion ar ffurf rheoliadau, canllawiau ar baramedrau cyllidebau, partneriaethau, systemau rheoli gweithredu a pherfformiad.
- Er mwyn datblygu gwasanaethau integredig, rhaid cael gweledigaeth a rennir, blaenoriaethau cytûn, ymddiriedaeth a gwaith partneriaeth agored ac atebol. Gallai partneriaethau a gaiff eu gorfodi drwy ddulliau ffurfiol danseilio atebion a ddatblygwyd ar y cyd yn lleol a diwallu anghenion dinasyddion lleol drwy gydweithredu effeithiol. Mae cyllidebau cyfun yn adnoddau i gefnogi gwaith ar y cyd.

## Adran 4: Diogelu ac Amddiffyn

**<u>Sylwadau cyffredinol</u>**

Roedd cefnogaeth a chymeradwyaeth eang iawn i'n cynnig i sefydlu Bwrdd Cenedlaethol, ond teimlwyd bod angen eglurhad pellach o'r rôl, y swyddogaeth ac atebolrwydd. Cytunwyd â chynigion Fforwm Diogelu Plant Cymru ar gyfer Bwrdd Cenedlaethol a fyddai'n creu ffocws strategol a chenedlaethol ac a fyddai'n gallu rhoi cyfeiriad clir a chyson i asiantaethau. Dywedodd ymatebwyr y gallai'r Bwrdd chwarae rhan werthfawr yn y gwaith o werthuso effeithiolrwydd canllawiau; nodi anghenion hyfforddi; casglu data i nodi tueddiadau cenedlaethol; a nodi a rhannu arfer gorau. Dylai hefyd fod yn annibynnol, yn strategol a hyd braich oddi wrth y Llywodraeth ac asiantaethau, gyda llinellau atebolrwydd clir. Roedd croeso cyffredinol i'r cynigion i sicrhau bod y trefniadau ar gyfer oedolion a phlant yn gyfartal, ond rhybuddiwyd bod angen sicrhau bod gwahaniaethau amlwg rhwng yr agendâu.

Cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ei bod yn bwysig bod defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu cynrychioli ac roeddent yn unfryd y byddai'n her

sylweddol sicrhau bod hyn yn digwydd mewn ffordd ystyrlon. Rhoddwyd awgrymiadau ynghylch sut i gyflawni hyn, er enghraifft ymgynghori â sefydliadau trydydd sector i enwebu cynrychiolwyr, neu grwpiau a fforymau defnyddwyr sydd eisoes yn bodoli.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid creu Byrddau Amddiffyn Oedolion a Byrddau Diogelu Plant a chafwyd cymeradwyaeth gyffredinol i'w swyddogaethau a'u haelodaeth arfaethedig hefyd. Roedd cefnogaeth i ddatblygu fformiwla ariannu hefyd, a chafwyd llawer o awgrymiadau ar sut y gellid rhoi hyn ar waith. Cododd nifer fach ond arwyddocaol o ymatebwyr faterion yn ymwneud â rhai o'r cynigion a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori, yn arbennig y cynnig i greu chwe Bwrdd Diogelu Plant a (i raddau llai) chwe Bwrdd Amddiffyn Oedolion; a'r cynigion i gyfuno'r ddau fwrdd rywbryd yn y dyfodol. Roedd safbwyntiau cymysg ynghylch a ddylai'r byrddau lleol gael cadeiryddion annibynnol.

Roedd llawer o gefnogaeth i'r cynigion i gyflwyno fframwaith cyfreithiol cydlynol, gyda phob cwestiwn yn cael cymeradwyaeth gref. Cafwyd rhywfaint o anghytuno ynghylch 'pwerau ymyrryd' gyda'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn ffafrio rhyw fath o ymyrraeth, er bod yr ymgynghoriad wedi mynegi'r farn nad oedd gennym unrhyw gynlluniau i ystyried cymryd pwerau ar y cam hwn. Trafodir y dadleuon hyn ymhellach yn y dadansoddiad hwn.

## 4.1 Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

- Ydych chi'n cytuno gyda barn Fforwm Diogelu Plant Cymru ar rôl a swyddogaethau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol?
- Pa fath o sefydliad ddylai'r Bwrdd fod yn eich barn chi? Sut fyddai atebolrwydd a'r berthynas gyda Gweinidogion Cymru a Byrddau Diogelu ac Amddiffyn yn cael eu rhoi ar waith (gweler adran 4.2 - Byrddau Diogelu ac Amddiffyn)?
- Sut ddylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu cynrychioli ar y Bwrdd?

Enghreifftiau o ymatebion:-

- Yn cefnogi barn y Fforwm Diogelu Plant er mwyn sicrhau bod llais oedolion a phlant yn cael ei glywed gan roi atebolrwydd dros berfformiad a chynlluniau a gaiff eu gweithredu drwy gyrff rhanbarthol. Yn croesawu'r un statws i oedolion a phlant.
- Yn cytuno â'r ffocws strategol a chenedlaethol priodol ar yr agenda ddiogelu ac yn cytuno mewn egwyddor â'r rôl a'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau a nodwyd gan fforwm Diogelu Cymru, ond mae angen nodi'r gwahaniaethau rhwng gwasanaethau plant ac oedolion.
- Ie, bydd datblygu fframwaith canlyniadau cenedlaethol yn annog cydlyniant a chysondeb. Mae'r ffaith nad oes fformiwla ariannu ar gael wedi achosi anawsterau i'r bwrdd - dylai byrddau fodloni rhwymedigaethau a dylai asiantaethau gyfrannu'n ariannol, heblaw am sefydliadau gwirfoddol. Mae angen eglurhad ynghylch y gyllideb, dylai gael ei hariannu'n ganolog.

- Yn cytuno bod creu chwe bwrdd plant newydd i weithredu ochr yn ochr â'r byrddau oedolion yn gam cadarnhaol, fodd bynnag rhaid sicrhau nad oes unrhyw fwrdd/corff newydd yn ansefydlogi nac yn cael effeith andwyol anfwriadol. Mae'r bwriad hirdymor i'w cyfuno yn synhwyrol a bydd yn arwain at fwy o gysondeb.
- Dylai'r Bwrdd fod yn annibynnol a dylai allu herio a dwyn y sefydliadau sy'n aelodau a'r llywodraeth i gyfrif. Dylai Llywodraeth Cymru a'r byrddau gyfathrebu â'i gilydd yn uniongyrchol drwy'r bwrdd cenedlaethol.
- I sicrhau y caiff defnyddwyr gwasanaethau eu cynrychioli'n briodol, dylai'r byrddau ddilyn esiampl cyrff eraill e.e. Y Comisiynydd Pobl Hŷn/Comisiynydd Plant. Gallai'r byrddau gynnal cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd neu drefnu grwpiau â chymorth.

## 4.2 <u>Byrddau Diogelu ac Amddiffyn</u>

- Yn eich barn chi, pa swyddogaethau ddylai Byrddau Amddiffyn Oedolion a Byrddau Diogelu Plant eu cyflawni?
- Ydych chi'n cytuno bod angen fformiwla ariannu? Sut y dylid mynd ati i lunio'r fformiwla hon?
- Ydych chi'n credu bod aelodaeth statudol bresennol BLIDPau yn ddigonol ar gyfer Byrddau Diogelu Plant? Pa aelodau ychwanegol y dylid eu cynnwys o fewn aelodau Byrddau Amddiffyn Oedolion?
- A ddylid ei gwneud hi'n ofynnol i bob Bwrdd Diogelu ac Amddiffyn gael cadeirydd annibynnol? Esboniwch eich rhesymeg.

<u>Enghreifftiau o ymatebion:-</u>

- Dylai swyddogaethau'r bwrdd gynnwys cydweithredu rhwng asiantaethau, monitro'n barhaus ac adolygu polisïau/canlyniadau.
- Yn aneglur pam bod chwe bwrdd i oedolion gan nad yw hyn yn cyd-fynd â threfniadau Byrddau Iechyd na'r Heddlu ond yn croesawu'r ffaith y bydd llai o fyrddau gan fod hyn yn lleihau cymhlethdod a dyblygu.
- Ddim yn cytuno â'r swyddogaethau a nodwyd ond yn credu y dylid eu gosod ar Fwrdd Cenedlaethol. Yn cefnogi'r ffaith y dylid trin diogelu oedolion yn gyfartal â diogelu plant ond yn credu y dylid eu cadw ar wahân.
- Dylid datblygu fformiwla ariannu sy'n cytuno ar gyfraddau cymharol ar gyfer cydgyfraniadau. Heb fformiwla ariannu, mae'n anodd i asiantaethau ddatblygu cynlluniau ariannol cyfeillgar a theg; gallai hyn achosi tyndra dros amser yn enwedig gan fod pwysau ariannol cynyddol ar y sector cyhoeddus.
- Yn cytuno â chadeiryddion annibynnol, dylid eu penodi mewn ffordd dryloyw am dymor penodol. Dylid mesur perfformiad unigol yn erbyn cymwysterau.
- Mae'r aelodaeth statudol bresennol yn ddigonol ond mae angen iddi fod yn hyblyg o ran asiantaethau ar gyfer aelodau bwrdd ar lefel leol.
- Nid oes tystiolaeth bendant bod cael cadeirydd annibynnol yn fuddiol. Angen ystyried y costau yn erbyn y buddiannau - ystyried bod cadeirydd annibynnol yn gost ddiangen - yr ateb fyddai ethol y cadeirydd o blith y bwrdd ar sail cylchdro.

## 4.3 Amddiffyn Oedolion - fframwaith cyfreithiol newydd

- A yw cwmpas yr hyn a fyddai'n golygu 'oedolyn mewn perygl' yn rhesymol?
- A ddylai'r dyletswyddau ar asiantaethau i amddiffyn oedolion mewn perygl fod yn seiliedig ar rywun yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef 'niwed'?
- A ddylai'r diffiniad o 'oedolyn mewn perygl' hefyd ystyried lleoliad neu amgylchiadau camdriniaeth ac a all unigolyn ddiogelu ei hun o ganlyniad i'w anghenion iechyd a gofal cymdeithasol (paragraff 4.3.9 o'r ddogfen ymgynghori)?
- A yw ystod yr asiantaethau y bydd y Bil yn gosod dyletswyddau arnynt yn briodol? A oes unrhyw asiantaethau eraill y dylid ystyried eu cynnwys yn y fframwaith hwn, ac os felly, pam?
- A ddylai dyletswydd i adrodd fod yn berthnasol i'r holl asiantaethau a gwmpesir gan y dyletswyddau eraill? Os na, pam? I bwy ddylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol?
- A ddylai'r ddeddfwriaeth gynnwys pwerau ymyrryd? Os felly, beth fyddai natur y pwerau hyn?

Enghreifftiau o ymatebion:-

- Pryderu nad oes deddfwriaeth ar gyfer eiriolaeth i oedolion. Hoffem pe bai'r Bil yn cyflwyno dyletswydd ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i oedolion mewn perygl a rhoi'r hawl iddynt ofyn am eiriolwr annibynnol.
- Ystyrir bod y diffiniad o oedolyn mewn perygl yn rhesymol yn unol â disgrifiad polisïau a gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed Cymru Gyfan. Yn cytuno â'r potensial i gyflwyno trydydd categori ac yn credu bod y rhestr o asiantaethau yn briodol. Yn croesawu'r cynnig i gyflwyno dyletswydd i ymchwilio gan eu bod yn cydnabod bod llawer o bryderon ynghylch lefel ymateb lle bo achos honedig o gam-drin wedi'i nodi.
- Yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfres o gynigion ac wedi nodi bod bwriad i gyflwyno fframwaith cyfreithiol ar gyfer amddiffyn oedolion. Dylai'r rhestr o nodweddion personol gael ei chynnwys yn y Cod Ymarfer, nid y Bil.
- Barn gynyddol y dylai'r term "oedolyn mewn perygl" gael ei ddefnyddio yn lle oedolyn agored i niwed gan fod pob oedolyn yn agored i niwed rywbryd yn ystod ei oes. Mae Comisiwn y Gyfraith (2010) yn argymell y dylid newid y diffiniad.
- Croesewir diffiniad cadarn o niwed i helpu i gymhwyso polisïau'n gyson er mwyn pennu trothwyon ar gyfer rhoi polisïau a gweithdrefnau amddiffyn oedolion ar waith.
- Mae amddiffyn oedolion yn dibynnu ar waith rhyngasiantaethol effeithiol a fyddai'n galw am gydweithdrefnau ar gyfer pob asiantaeth.
- Yn credu bod angen i'r ddyletswydd i amddiffyn fod yn eang lle bo dyletswyddau'n cael eu gosod ar ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol i roi gwybod am bryderon a lle bo disgwyl i asiantaethau wneud yr holl waith i gefnogi ymchwiliad.
- Dylai pwerau ymyrryd fod yn seiliedig ar y Ddeddf Hawliau Dynol a dylent fod yn ddibynnol ar b'un a all yr unigolyn amddiffyn ei fuddiannau ai peidio.

## Adran 5: Rheoleiddio ac Arolygu

### Sylwadau Cyffredinol

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cefnogi'r cynigion a nodwyd yn adran 5, ond nodwyd materion i'w hystyried er mwyn sicrhau cymaint o fudd â phosibl. Teimlai'r ymatebwyr fod angen y cynigion er mwyn creu hyblygrwydd ar gyfer trefniadau rheoleiddio'r gweithlu yng nghyd-destun y modelau gwasanaethau newydd a'r rhai sy'n datblygu. Ystyriwyd bod y cynigion yn bwysig i ategu'r agenda broffesiynoli ymhlith y gweithlu gofal cymdeithasol i gyd, gan sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant cyson a digonol a'u bod yn cael eu cyflogi mewn rolau priodol.

Codwyd materion o ran cost gweithredu'r cynigion a'r angen i gadw hyblygrwydd ac ystwythder y gweithlu gofal cymdeithasol; yn ogystal â chydlyniant â sectorau cysylltiedig eraill. Roedd rhai ymatebwyr yn amau a oedd angen trefniadau rheoleiddio ychwanegol ar ben y fframwaith sydd eisoes ar waith. Fodd bynnag, roedd brwdfrydedd i drafod sut y dylid symud ymlaen â'r cynigion.

Teimlai'r ymgyngoreion a ymatebodd i'r adran hon ei bod yn briodol bod Gweinidogion Cymru yn gallu ymestyn trefniadau rheoleiddio i gategorïau gwasanaeth newydd. Teimlwyd ei bod yn briodol ymestyn trefniadau rheoleiddio i wasanaethau gwaith cymdeithasol er mwyn sicrhau dull system gyfan o reoleiddio gofal cymdeithasol ac ystyriwyd bod hwn yn gam a fyddai'n gwella statws gwasanaethau ac yn annog gwelliant parhaus o fewn y gwasanaethau hynny. Roedd cytundeb hefyd y dylid parhau â'r gofyniad i reolwyr cofrestredig gwasanaethau hefyd gael eu cofrestru ar gofrestr gwaith cymdeithasol Cyngor Gofal Cymru. Ystyriwyd bod hyn yn helpu i wneud y grŵp hwn o weithwyr yn fwy proffesiynol ac yn rhoi cyswllt uniongyrchol â'r gwasanaethau a ddarperir.

Ymhlith y rhai a ymatebodd i'r adran hon, roedd cytundeb mewn egwyddor i gyflwyno cofrestriadau am gyfnod penodol. Ystyriwyd y byddai hyn yn helpu i sicrhau safonau uchel drwy ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ailgofrestru'n rheolaidd; fel ffordd o helpu i fynd i'r afael ag agweddau o hunanfoddhad, perfformiad gwael ac ymarfer gwael sy'n bodoli ymhlith rhai darparwyr; ac annog awdurdodau lleol i gynyddu hyd contractau os pennwyd cyfyngiadau o hyd digonol, er mwyn i ddarparwyr wneud gwelliannau i wasanaethau.

Cytunodd ymatebwyr y dylai'r gofrestr arfaethedig gynnwys gwybodaeth benodol am ddarparwyr, gan fod hon yn ffordd gyson, perthnasol a hwylus o roi gwybodaeth i ddefnyddwyr a'u gofalwyr. Ystyriwyd hefyd ei bod yn ffordd o roi sicrwydd iddynt drwy lefel uwch o dryloywder ac atebolrwydd. Croesawyd pwerau i reoleiddwyr rannu gwybodaeth, o ystyried yr arferion amrywiol sydd i'w gweld ar hyn o bryd yn y maes hwn. Ystyriwyd y byddai hyn yn galluogi comisiynwyr i wneud gwelliannau i wasanaethau ac yn sicrhau bod gan ddefnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr yr holl ffeithiau am ddarparwr neu wasanaeth pan fyddant yn gwneud eu dewisiadau.

Cefnogodd yr ymatebwyr yr awgrym y dylid cyhoeddi'r adroddiadau er mwyn helpu unigolion i wneud penderfyniadau, gan y byddai hyn yn eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau hyddysg am eu gofal a'u cymorth ac yn helpu i wella tryloywder ac

atebolrwydd yn y sector. Dylai'r adroddiadau hyn ddilyn yr un fformat a chynnwys yr un fath o wybodaeth er mwyn ei gwneud hi'n haws i unigolion wneud cymariaethau ac, o ganlyniad, wneud dewisiadau mwy hyddysg am eu gofal.

Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig i ddileu'r gair "gofynnol" o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol oherwydd ystyriwyd bod hyn yn ffordd o helpu gofal cymdeithasol i gyflawni rhagoriaeth ac yn ffordd o ganolbwyntio ar bethau eraill y tu hwnt i'r pethau yr ystyrir eu bod yn dderbyniol.

Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid eithrio gwasanaethau penodol, oherwydd ni nodwyd unrhyw wasanaethau a fyddai'n cael eu heithrio.

### 5.1 Cofrestru'r gweithlu

- Ydych chi'n credu bod y diffiniadau presennol o weithwyr gofal cymdeithasol yn Neddf Safonau Gofal 2000 yn ddigon eang i gwmpasu gweithwyr mewn modelau newydd o ddarparu gwasanaethau?
- Ydych chi'n cytuno y dylai bod gan y Cyngor Gofal bwerau i reoleiddio hyfforddiant pob gweithiwr gofal cymdeithasol, yn hytrach na gweithwyr cymdeithasol yn unig?
- Ydych chi'n cytuno y dylid sicrhau bod gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud rheoliadau sy'n neilltuo rhai gweithgareddau ar gyfer staff â chymwysterau penodol?
- A oes gennych chi farn ynglŷn â pha weithgareddau y dylid eu neilltuo ar gyfer staff â chymwysterau penodol?

Enghreifftiau o ymatebion:-

- Dylid egluro'r grwpiau o bobl y dywedir eu bod yn 'gweithio mewn lleoliad gofal cymdeithasol', gan fod y term hwn yn cael ei ddefnyddio'n gyffredinol i ddisgrifio nifer o weithwyr proffesiynol.
- Na, mae angen nodi teitlau'r gweithwyr proffesiynol amrywiol.
- Yn cytuno y dylai Cyngor Gofal Cymru gael pwerau i reoleiddio hyfforddiant pob gweithiwr gofal cymdeithasol, a fyddai'n rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ynghylch sgiliau, gwybodaeth a hyfforddiant staff. Cysylltu â chyrff gofal iechyd proffesiynol lle bo'r rheini yn rhan o rôl gofal cymdeithasol.
- Ie, dylai unrhyw system reoleiddio gydgysylltu â chyrff rheoleiddio eraill a'u Codau Ymarfer.
- Ie, ond mae angen iddynt gael eu pennu gan gorff proffesiynol a'u cysoni â rheoliadau'r DU.
- Mae lle i wella hyd yn oed i'r rheini â chymwysterau arbenigol. Maent i gyd yn ymwneud â gofalu am ddefnyddwyr gwasanaethau ac ni ddylai unrhyw un gael eu heithrio rhag hyfforddiant.

### 5.2a Ymestyn rheoleiddio i gategorïau gwasanaethau newydd

| |
|---|
| • Ydych chi'n credu y dylai Gweinidogion Cymru allu cyflwyno modelau o ddarparu gwasanaethau newydd priodol i gwmpas y rheoleiddiwr?<br>• Ydych chi'n cytuno y dylai gwasanaethau gwaith cymdeithasol fod yn wasanaeth a reoleiddir?<br>• Ydych chi'n cytuno bod yn rhaid cofrestru rheolwr cofrestredig gwasanaeth ar gofrestr gwaith cymdeithasol Cyngor Gofal Cymru? |

Enghreifftiau o ymatebion:-

- Na, rôl y rheoleiddiwr yw rheoleiddio, nid darparu gwasanaethau.
- Mae ffyrdd newydd o weithio i gefnogi gofal yn golygu yr ystyrir ei bod yn briodol i Weinidogion Cymru ddwyn y rhain o dan gylch gwaith rheoleiddwyr. Ystyrir bod rheoleiddio gwasanaethau gweithwyr cymdeithasol yn gam cadarnhaol.
- Na, mae rhai gweithwyr cymdeithasol yn cael eu rheoli gan bara-weithwyr proffesiynol, ac mae gan Gyngor Gofal Cymru gofrestr ar eu cyfer ond nid gwaith cymdeithasol yn benodol.

### 5.2b Diwygio'r model cofrestru ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol

| |
|---|
| • Ydych chi'n cytuno y dylid cael pwerau i bennu cofrestriadau am gyfnodau penodol? Os felly, a ddylid cyflwyno hyn fesul cam?<br>• A ddylid eithrio gwasanaeth penodol o'r ddarpariaeth hon fel mater o egwyddor? Os felly, pam?<br>• Pa sectorau/gwasanaethau fyddai fwyaf addas ar gyfer y model hwn?<br>• Pa faterion allai godi yn sgil y mater hwn? |

Enghreifftiau o ymatebion:-

- Mae cofrestriadau am gyfnodau penodol yn briodol ond mae angen egluro a chadarnhau'r mater.
- Yn cefnogi model sy'n gwella ansawdd a llywodraethu da. Mae ailgofrestru yn arwain at agwedd hunanfodlon yn erbyn safonau; fodd bynnag, mae goblygiadau ariannol i hyn.
- Dylid eithrio gwasanaethau fel cartrefi gofal i'r henoed er y gallai pobl o dan 65 oed fod yn byw mewn cartref gofal. Gallai cynlluniau grant fod yn addas i'r model hwn.
- Yn pryderu y bydd y cofrestriad yn dod i ben cyn y gellir dod o hyd i leoliadau eraill.
- Ni dderbynnir newid bob amser ond mae ei angen yn yr achos hwn.
- Mae angen datblygu gwybodaeth arbenigol ymhellach er mwyn gwella gwasanaethau.

### 5.2c Y Gofrestr

- Ydych chi'n cytuno y dylai'r gofrestr gynnwys gwybodaeth benodol?
- Ydych chi'n credu y bydd y dull hwn yn galluogi defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr i wneud penderfyniadau am y gwasanaethau a ddefnyddiant neu y byddant o bosibl am eu defnyddio?
- Ydych chi'n cytuno y dylai'r rheoleiddiwr gael y pwerau i rannu gwybodaeth?
- Ydych chi'n cytuno y bydd y dull hwn yn sbarduno gwelliannau?

Enghreifftiau o ymatebion:-

- Bod yn agored ac yn onest.
- Yn hoffi gweld rhai mesurau diogelu i atal gwybodaeth amhriodol rhag cael ei rhyddhau a rhoi hawl i ymateb.
- Rhaid ymdrin â'r broses o gyflwyno'r gofrestr o wybodaeth am unigolion yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

### 5.2d Llywodraethu sefydliadol a mecanweithiau sicrhau ansawdd

- Ydych chi'n cytuno y dylai'r adroddiadau hyn fod ar gael i'r cyhoedd?
- Ydych chi'n cytuno y dylem nodi materion i'w hadrodd i'r cyhoedd?

Enghreifftiau o ymatebion:-

- Yn cytuno â'r cynigion a'r angen am dryloywder. Rhaid eu bod ar gael i'r dinesydd am fod angen iddo eu deall. Yn awyddus i weld y baich casglu data ac ysgrifennu adroddiadau yn lleihau. Dylid rhoi dyletswydd ar ALlau a phartneriaid i ddarparu cofnod pwynt gofal integredig rhwng gofal cymdeithasol ac iechyd.

### 5.2e Safonau Gofynnol Cenedlaethol

- Ydych chi'n cytuno y dylem gael gwared ar y gair 'gofynnol' o adrannau 23 a 49 Deddf Safonau Gofal 2000?

Enghreifftiau o ymatebion:-

- Yn pryderu bod darparwyr yn teimlo mai dim ond y safonau cenedlaethol y mae angen iddynt eu cyflawni er mwyn ailgofrestru. Gobeithio bod bwriad i weithio gyda darparwyr gwasanaethau a chomisiynwyr statudol i gytuno ar safonau. Byddai'n ddefnyddiol cael safonau iechyd a gofal cymdeithasol y cytunwyd arnynt ar y cyd ar gyfer gofal mewn cartrefi nyrsio.
- Yn cytuno y dylid cael gwared ar y term "gofynnol" ac anelu at safonau uwch.
- Gallai cael gwared ar y gair 'gofynnol' gael effaith mewn sawl ffordd, dim meincnod i weithio ato, ni fydd darparwyr yn gwybod p'un a fydd yr hyn y

byddant yn ei ddatblygu yn cael ei gofrestru.  Mae diffyg canllawiau yn arwain at ansicrwydd ac ni fydd yn gam cadarnhaol.

## Adran 6:  Gwasanaethau

**Sylwadau cyffredinol**

Cefnogodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y cynigion polisi cyffredinol ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.  Awgrymodd ymatebwyr y byddai Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn tynnu sylw at anghysondebau rhwng gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru ac yn eu lliniaru. Awgrymwyd y byddai Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn creu gwasanaeth cyson a safonedig, sy'n mynd i'r afael â'r ffaith bod plant a'r rhai sy'n mabwysiadu yn cael gwasanaeth amrywiol, sy'n ddibynnol ar hyn o bryd ar adnoddau a sgiliau awdurdodau lleol penodol. Teimlwyd hefyd y byddai gwaith y Bil yn rhoi cyfle i adolygu darpariaethau mabwysiadu yng Nghymru, gan sicrhau na chaiff arferion da a chyflawniadau presennol eu gwanhau na'u hanwybyddu.

Roedd gan rai o'r ymatebwyr bryderon am y trefniadau ariannu, yn enwedig am fod awdurdodau lleol yn ceisio gwneud arbedion yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Roeddent am i fanylion y swyddogaethau cenedlaethol gael eu hailystyried, ac roeddent am ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau mabwysiadu gydweithredu ar sail ranbarthol. Awgrymwyd mai datblygu trefniadau'r pedair partneriaeth bresennol fyddai'r ateb mwyaf hwylus, gan ei gwneud hi'n bosibl o hyd i ymestyn gwasanaethau yn y Gogledd; y Canolbarth a'r Gorllewin; y De; a'r De-ddwyrain.

Croesawyd y ffocws ar fesurau i wella trefniadau ynghylch cynigion polisi ar faterion pontio ar gyfer plant a phobl ifanc anabl, ond codwyd nifer o faterion i'w hystyried ymhellach.  Croesawodd yr ymatebwyr yr awgrym i gynyddu'r oedran i 21, er i nifer awgrymu y dylid ei gynyddu ymhellach i 25. Cyfeiriwyd at rai achosion o waith da sydd eisoes yn mynd rhagddo ac yn benodol werth hollbwysig gwaith cynllunio da o ran pontio yn ogystal â Gweithwyr Pontio Allweddol.

Cafwyd awgrymiadau amrywiol iawn ynghylch y mathau o hawliau y gellid eu hymestyn, gan gynnwys gofal seibiant, mynediad i wasanaethau hamdden, gweithgareddau addas yn ystod y dydd ac amrywiaeth o gymorth i helpu i fyw'n annibynnol.  Dywedodd nifer o ymatebwyr fod darpariaethau eraill a gynigir yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol, megis lles, asesiadau, y gallu i drosglwyddo a chymhwysedd, yn rhoi cyfleoedd i wella trefniadau i blant a phobl ifanc anabl sy'n mynd drwy'r broses bontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Mynegodd nifer o ymatebwyr y farn y dylai cynigion ar gyfer asesu a diffinio "pobl mewn angen" beth bynnag fo'u hoed olygu y dylai'r broses bontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion wella yn y dyfodol.

Nododd yr holl ymatebwyr yr angen brys am waith amlasiantaeth a gwaith cynllunio pontio effeithiol.

Nododd ymatebwyr fod 17/18 oed yn rhy hwyr i ddechrau cynllunio pontio, a mynegodd eraill bryderon y gallai codi'r oedran pontio o wasanaethau plant i

wasanaethau oedolion arwain at oedi yn y broses bontio yn hytrach na gwella trefniadau. Codwyd pryderon hefyd y dylai oedolion anabl ifanc gael cymorth fel oedolion ac na ddylent barhau i gael eu hystyried yn blant.

Cododd nifer o ymatebwyr bryderon fod "anghenion cymhleth" yn canolbwyntio ar anabledd corfforol a'r model meddygol. Cafwyd nifer o awgrymiadau gan ymatebwyr ynghylch gwaith sy'n mynd rhagddo a chynigion i gymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau yn y dyfodol i ddatblygu cynigion polisi.

### 6.1 Sefydlu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol

- Ydych chi'n cytuno â'r swyddogaethau y bydd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn gyfrifol amdanynt a nodir ym mharagraff bb o'r ddogfen ymgynghori?
- Ydych chi'n awgrymu y dylid cynnwys unrhyw swyddogaethau ychwanegol?
- Oes unrhyw rwystrau eraill i'r trefniadau cyfredol y dylid eu hystyried wrth ddatblygu Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)?
- Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am ein cynigion am Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol?

Enghreifftiau o ymatebion:-

- Bydd yn anodd gweld sut y caiff y nodau hyn eu cyflawni yn ymarferol. Mae'n hanfodol ystyried amrywiaeth Cymru yn y Bil, dylid ymdrin yn benodol â siaradwyr Cymraeg.
- Dylid rhoi mwy o bwyslais ar yr angen am hyfforddiant a chymorth ôl-fabwysiadu. Gobeithio y bydd y Bil yn diwallu'r anghenion am adnoddau ychwanegol er mwyn sicrhau bod lleoliadau yn llwyddiannus oherwydd, fel arall, gallant fethu.
- Yn cytuno y dylid diwygio'r broses fabwysiadu, yn enwedig y broses gyfreithiol, ond ni ddylid gwneud newidiadau i'r broses fabwysiadu ar draul mathau eraill o drefniadau parhaol fel gofal hirdymor i Blant sy'n Derbyn Gofal.
- Ddim yn teimlo y bydd gwasanaeth mabwysiadu i Gymru Gyfan yn gwella gwasanaethau i blant na darpar fabwysiadwyr. Yn ddefnyddiol cael dull cenedlaethol i godi safonau a hyfforddi gweithwyr cymdeithasol ond dylid recriwtio a hyfforddi mabwysiadwyr ar lefel fwy lleol.
- Mae daearyddiaeth y wlad a phroblemau fel cysylltiadau trafnidiaeth gwael yn her yng Nghymru, y demtasiwn yw canoli pethau neu ddarparu isganolfannau mewn ardaloedd eraill ond gallai hyn ynysu ymarferwyr ac ymyleiddio defnyddwyr gwasanaethau.
- Bydd angen i reolwyr y gwasanaeth sicrhau y caiff arferion eu goruchwylio'n briodol a bod y gwasanaeth yn effeithiol. Angen diffiniadau clir o rolau a phwy sy'n gyfrifol am swyddogaethau a dyletswyddau rhwng y bwrdd newydd ac asiantaethau presennol gyda gweithdrefnau a chanllawiau clir. Os bydd ALlau yn cadw cyfrifoldebau fel asiantaethau mabwysiadu yna mae'n hanfodol na chânt eu llesteirio gan haen ychwanegol o reolwyr.
- Mae'n hanfodol atal unrhyw oedi yn y broses o sicrhau lleoliadau i blant a hynny er lles y plentyn a llwyddiant teuluoedd sy'n mabwysiadu.

- Bydd gwasanaeth cenedlaethol yn arwain at fwy o fuddiannau a gwaith i "yrru" mabwysiadu ymlaen a gwella gwasanaethau. Yn galluogi ymarferwyr i rannu eu sgiliau a'u gwybodaeth â chydweithwyr yng Nghymru, mewn ffordd sy'n rhoi cyfle cyfartal i staff.

### 6.2 Pontio ar gyfer plant a phobl ifanc anabl

- A oes unrhyw hawliau allweddol, amlwg y mae plant anabl yn eu derbyn a fyddai'n werth eu parhau y tu hwnt i 18 oed ar gyfer y rhai â'r anghenion mwyaf cymhleth? Rhowch fanylion a'ch rhesymeg.
- Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ynglŷn â sut y gallem ddiffinio "anghenion cymhleth"?

Enghreifftiau o ymatebion:-

- Bydd y Ddeddf yn gwella unrhyw anghenion nas nodwyd.
- Mae angen rhagor o waith yn y maes hwn i'w ddatblygu drwy grŵp amlbroffesiynol. Angen eglurder ynghylch beth y gall y GIG ac ALlau ei ddarparu i ddiwallu anghenion cymhleth, mae cyfle i ddiffinio anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth neu gytuno arnynt ar y cyd a sut y caiff y rhain eu darparu ar y cyd, ac achosion lle bo'r cymhlethdod yn pennu cymhwysedd i gael gofal iechyd parhaus.
- Mae parhau â hawliau gwasanaethau cymdeithasol plant anabl yn gam cadarnhaol ac yn dilyn yr un drefn â Phlant sy'n Derbyn Gofal, ond nid yw'n unol â'r oedran pontio ar gyfer eraill na diffiniad Llywodraeth Cymru o Bobl Ifanc, sef 25 oed.
- Ni nodir yn benodol beth a olygir gan anghenion cymhleth a asesir a ph'un a yw hyn yn golygu asesiad gan y GIG. Byddai un oedran pontio yn ddefnyddiol gyda hyblygrwydd ar gyfer amgylchiadau arbennig. Nid yw'n glir sut y byddai cynyddu'r oedran yn helpu'r broses bontio oni bai bod gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn rhoi mwy o gymorth.
- Mae angen cryfhau gwaith integredig rhwng iechyd a gofal cymdeithasol fel nad oes unrhyw beth annisgwyl yn digwydd pan fo'r unigolyn yn troi'n 18 oed. Efallai bod 18-25 oed yn ystod oedran mwy realistig gan fod hyn yn rhoi cyfle iddynt gwblhau eu haddysg, sy'n fwy anodd i bobl ifanc anabl. Mae'n anodd diffinio anghenion cymhleth ond mae angen cyfeirio nôl at y fframwaith meini prawf cymhwysedd.
- Mae'n anodd rhoi ymateb ynghylch y diffiniad heb ddeall yn llawn y gofynion ar gyfer y ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer y bobl hyn.

## Adran 7: Gweithredu'r ddeddfwriaeth arfaethedig (Effaith)

**Sylwadau Cyffredinol**

Diben yr adran hon oedd nodi unrhyw effaith yn deillio o'r cynigion nas codwyd yn flaenorol yn adrannau cynharach yr ymgynghoriad, boed yn effeithiau ariannol neu'n effeithiau sy'n gysylltiedig â gweithredu. Cafwyd ymatebion cymysg i'r adran hon gan fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eisoes wedi rhoi sylwadau ar effaith y Bil.

Codwyd pryderon na fyddai'r effaith ariannol mor niwtral o ran costau ag yr awgrymir yn yr ymgynghoriad, ac na fyddai'r cynigion yn cyflawni amcanion Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy.

- Drwy gydol y ddogfen hon rydym wedi nodi effeithiau'r cynigion yr hoffem eu cynnwys yn y Bil. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar effeithiau'r hyn rydym wedi'i nodi?
- Ydych chi'n cytuno â'n dadansoddiad o'r effeithiau? Os nad ydych chi, pam?
- Beth ydych chi'n ei gredu bydd goblygiadau cost posibl y cynigion newydd? A ellid cyflawni'r ddyletswydd drwy fân newidiadau i drefniadau cyfredol ac ati?
- A ddylem ystyried meysydd eraill y gellid eu heffeithio?

Enghreifftiau o ymatebion:-

- Ddim yn teimlo y byddai gwneud mân newidiadau yn helpu i gyflawni amcanion allweddol Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru. Byddai'n rhaid ystyried rhoi cynigion newydd, integredig a chydweithredol ar waith yn unol â'r goblygiadau ariannol - ystyried hyn fel ffordd o wella gwasanaethau yn hytrach na thorri costau.
- Yn credu ei bod yn anodd mesur cost bosibl y cynigion yn gywir, mae'r buddiannau i ddinasyddion ac asiantaethau partner yn werth anelu atynt.
- Bwriad y ddeddfwriaeth arfaethedig yw rhoi mwy o gyfle i'r GIG a phartneriaid ddiwallu anghenion "pobl mewn angen" - gallai'r costau a'r effeithiau ar sefydliadau fod yn sylweddol yn dibynnu ar faint o gyfrifoldebau a gaiff eu cynnwys yn y Cod Ymarfer. Mae darparu gwasanaethau ataliol/ymyrraeth gynnar, pan fo galw yn uchel a llai o arian ac adnoddau, yn her.
- Mae angen arweinyddiaeth wleidyddol a phroffesiynol ar lefel genedlaethol a lleol i ddargyfeirio adnoddau o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol traddodiadol er mwyn datblygu modelau newydd.
- Yn gobeithio y bydd y Bil, gydag amser, yn gwella canfyddiadau'r cyhoedd a'u profiadau go iawn o wasanaethau cymdeithasol.

## Cwestiwn Olaf yr Ymgynghoriad

**Sylwadau cyffredinol**

Rhoddodd cwestiwn olaf yr ymgynghoriad y cyfle i ymatebwyr roi sylwadau ychwanegol ar yr ymgynghoriad.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gadarnhaol ynghylch cynigion y Bil a rhoddwyd sylwadau ar feysydd gwaith penodol. Fodd bynnag, roedd pryderon nad oedd y Bil yn ymdrin â rhai materion ac y gallai'r rhain fod yn gyfle i fynd i'r afael â phynciau pwysig.

- Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltiedig nad ydym wedi'u hateb, rhowch wybod i ni.

Enghreifftiau o ymatebion:-

- Yn croesawu'r Bil ac yn arbennig y cynigion ar gyfer gofalwyr/gwasanaethau yn y sector preifat.
- Yn croesawu'r ffaith y caiff gwybodaeth ei rhannu yn unol â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru. Yn croesawu'r ffaith bod dyletswydd statudol i rannu gwybodaeth wedi'i chynnwys ynghyd â sut y caiff ei gweithredu gan y bydd hyn yn haws na gofyn i'r perchenogion am ganiatâd. Bydd hefyd yn golygu y gall asiantaethau nodi beth y gallant ac na allant ei rannu.
- Byddai'r Bil yn sicrhau na chaiff gwasanaethau craidd eu gosod ar gontractau allanol er mwyn sicrhau bod ALlau yn cadw rheolaeth dros y gwasanaethau a ddarperir gan felly leihau'r siawns y bydd gwasanaethau'n lleihau neu'n cael eu colli.
- Yn siomedig nad yw ailalluogi yn rhan allweddol o'r Bil, mae angen i'r Bil gryfhau egwyddorion craidd y gwasanaeth ailalluogi gyda'r cynnig i gysoni gwasanaethau gydag ALlau a phartneriaid.
- Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i symleiddio trefniadau presennol ond gobeithio y rhoddir ystyriaeth i greu llwybr cliriach rwhng gwasanaethau statudol a gwirfoddol. Dylai fod gan wasanaethau cymdeithasol wybodaeth am y gwasanaethau a'r buddiannau a gyflwynir gan y sectorau gwirfoddol.
- Yn croesawu'r ymateb effeithiol i ofal cymdeithasol oedolion ond yn teimlo y dylai'r asesiad o anghenion ystyried y ffaith y gall anghenion unigolion â phroblemau anadlol amrywio o ddydd i ddydd h.y. os ydynt yn cael diwrnod da yna gallai'r cymorth sydd ei angen arnynt gael ei dynnu'n ôl. Yn croesawu'r ymrwymiad i gefnogi gofalwyr.
- Dylai'r Bil bwysleisio'r sefyllfa gyfreithiol bresennol nad oes gofyniad cyfreithiol i fod yn ofalwr i oedolyn. Dylai'r Bil ymdrin â beth yn union yw gwasanaeth i ofalwr a ph'un a allwch godi tâl amdano, fel y gwneir gyda gwasanaethau megis seibiant.
- Mae'r Bil yn gyfle delfrydol i ddeddfu i gael gwared ar gosb resymol. Mae'r ffaith nad yw'r mater hwn wedi'i gynnwys yn y Bil yn golygu na roddwyd ystyriaeth ddyledus i CCUHP.